



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg

Mwy na geiriau

Adroddiad Cryno Canol Tymor ar Gynydd
– Rhagfyr 2025

llyw.cymru



Mwy na geiriau

Adroddiad cryno canol tymor ar gynnydd - Rhagfyr 2025

Mae'r adroddiad yma wedi ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ymchwil OB3.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Polisi'r Gymraeg

Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

HSS.TimPolisiYGymraeg@llyw.cymru

hss.welshlanguagepolicyteam@gov.wales

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Adroddiad cryno canol tymor cynllun Mwy na geiriau 2022 i 2027	4

Rhagair gan y Gweinidog

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ohonom – ac mae Mwy na geiriau yn gyfrifoldeb i bawb sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae iaith yn fater o ddiogelwch, cydraddoldeb a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn – ac felly, mae'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r Ddyletswydd Ansawdd a'n safonau gofal.

Fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghymru, mae cyfle enfawr i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn esiampl o ran darparu gwasanaethau Cymraeg, ac i gyfrannu'n uniongyrchol at ein huchelgais o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y siaradwyr erbyn 2050.

Rwy'n llwyr gydnabod bod cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn digwydd mewn cyfnod o heriau digynsail sy'n wynebu ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod llawer wedi'i gyflawni ers cyhoeddi'r cynllun Mwy na geiriau cyntaf dros ddegawd yn ôl, mae'r camau gweithredu a nodwyd gennym yng nghynllun 2022-2027 – ac adroddiadau cynnydd 2023/24 a 2024/25 – yn tynnu sylw at yr heriau sy'n parhau.

Mae rôl arweinwyr ar bob lefel yn hollbwysig os ydym am sicrhau bod y Gymraeg yn rhan feunyddiol o iechyd a gofal cymdeithasol – fel y gwelwyd yn nigwyddiad cenedlaethol Mwy na geiriau i randdeiliaid a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2025, a ddaeth â phartneriaid o bob cwr o'r meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a chynllunio rhanbarthol ynghyd i ganolbwyntio ar yr agenda hon. Yn gynyddol, mae gwasanaethau'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol ac yn darparu cymorth yn y Gymraeg *heb fod angen i rywun ofyn amdano*. Rhaid i ni barhau i adeiladu ar hyn drwy sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn deall effaith darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Mae cynllunio'r gweithlu yn parhau i fod yn hollbwysig. Rwy'n croesawu'n arbennig y datblygiadau newydd hynny, lle mae cydweithwyr yn defnyddio data ar sgiliau'r gweithlu i nodi cyfleoedd i wella sgiliau'r rhai sydd eisoes yn gallu siarad Cymraeg – ond nad oes ganddynt yr hyder i wneud hynny. Mae Safonau'r Gymraeg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ac amcanion y cynllun Mwy na geiriau yn mynd law yn llaw: bydd y cydweithrediad newydd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gyflawni Safon 110, a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol, yn arbennig o bwysig wrth i ni ganolbwyntio ar y blaenoriaethau ar gyfer y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn tynnu sylw at ddatblygiadau arwyddocaol mewn perthynas â chynyddu sgiliau'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol. Rydym hefyd wedi cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i ymgymryd â rhan o'u hastudiaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu eu holl astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau yn Ysgol Feddygol newydd Gogledd Cymru, ym Mhrifysgol Bangor, lle mae meddygon yn dysgu Cymraeg fel sgil glinigol. A Phrifysgol Wrecsam – lle y gall myfyrwyr therapi lleferydd ac iaith gwblhau eu hyfforddiant a chynnal lleoliadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym hefyd yn gwneud cynnydd pwysig i rannu arferion da ar draws partneriaid a gwella'r ffordd rydym yn monitro ac yn adrodd ar ganlyniadau. Byddwn yn gwneud mwy i gefnogi'r flaenoriaeth hon dros weddill cyfnod y cynllun – yn enwedig yng ngoleuni ein gwaith mapio a'n hadolygiad o ddata allweddol ar y Gymraeg a gomisiynwyd yn ddiweddar, a'n cynlluniau i gryfhau'r ffocws ar gofnodi, olrhain a rhannu gwybodaeth am y Gymraeg ar draws systemau digidol, a datblygu safonau data newydd.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n helpu i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dwyieithog. Gyda'n gilydd, rydym yn creu system iechyd a gofal sydd nid yn unig yn ddwyieithog, ond sy'n canolbwyntio o ddifrif ar yr unigolyn.

Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Adroddiad cryno canol tymor cynllun Mwy na geiriau 2022 i 2027

Lansiwyd y cynllun Mwy na geiriau (2022-2027) ym mis Awst 2022 gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Datblygwyd y strategaeth bum mlynedd uchelgeisiol hon gan grŵp o arbenigwyr a chafodd ei llywio gan werthusiad annibynnol o'r cynllun Mwy na geiriau gwreiddiol.

Roedd yr adroddiad blynyddol cyntaf, a oedd yn cwmpasu'r cyfnod o fis Awst 2022 i fis Awst 2023, yn amlygu'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau gwasanaethau Cymraeg ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r ail a'r trydydd adroddiad blynyddol wedi amlinellu datblygiadau allweddol ar draws pum thema'r cynllun. Roedd yr ail adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 2023 i fis Mawrth 2024 ac yn seiliedig ar 29 o adroddiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys 7 bwrdd iechyd ac 13 awdurdod lleol.

Yn cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 2024 i fis Mawrth 2025, roedd y trydydd adroddiad blynyddol yn seiliedig ar 35 o adroddiadau a gyflwynwyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys 7 bwrdd iechyd a 15 awdurdod lleol.

Mae'r crynodeb canol tymor hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed a'r prif gyflawniadau dros dair blynedd gyntaf y cynllun gweithredu.

Mae'r **cyflawniadau allweddol mewn perthynas â'r thema diwylliant ac arweinyddiaeth** (y thema gyffredinol) yn cynnwys:

- ymwreiddio Mwy na geiriau a'r Cynnig Rhagweithiol ym mhrosesau rheoli perfformiad byrddau iechyd, ymddiriedolaethau, ac awdurdodau lleol. Mae amcanion perfformiad personol wedi'u pennu ar gyfer holl Gadeiryddion Byrddau'r GIG a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- sefydlu mecanweithiau strategol i oruchwyllo cynnydd
- ymgymryd â gweithgareddau cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu adnoddau digidol (Llywodraeth Cymru), cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith 'Agor y Drws' (Addysg a Gwella Iechyd Cymru, AaGIC) a datblygu cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dwyieithrwydd (Gofal Cymdeithasol Cymru, GCC)
- datblygu strategaethau cyfathrebu mewnol o fewn sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan gynnwys cynnal mentrau codi ymwybyddiaeth mewnol fel rhannu astudiaethau achos enghreifftiol a chynnal digwyddiadau ymgysylltu
- treialu'r Rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog a ddangosodd effaith gadarnhaol ar gyfranogwyr, gan gynyddu hyder y cyfranogwyr i arwain mewn amgylchedd dwyieithog yn benodol, a chryfhau sgiliau arwain a chyfathrebu cysylltiedig

- ymwreiddio egwyddorion Mwy na geiriau mewn rhaglenni hyfforddi mewnol i arweinwyr mewn rhai sefydliadau.

Mae'r **blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â'r thema diwylliant ac arweinyddiaeth** yn cynnwys:

- cryfhau hunanasesiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch y Gymraeg a sut y mae gwasanaethau'n cyflawni blaenoriaethau allweddol
- parhau i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i arweinwyr fynychu'r Rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog, gan gynnwys ymgorffori elfen 'hyfforddi'r hyfforddwr' i ddiwallu'r galw.

Y **cyflawniadau allweddol mewn perthynas â pholisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg** (Thema 1) oedd:

- comisiynu ymarfer mapio data llawn i nodi ffynonellau data presennol, bylchau, a dangosyddion ymarferol ar gyfer monitro blaenoriaethau yn y cynllun a chyflawni'r Cynnig Rhagweithiol
- ymwreiddio ystyriaethau'r Gymraeg yn fwy systematig mewn prosesau cynllunio drwy Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiadau Effaith ar y Gymraeg pwrpasol, a defnyddio'r rhain i nodi anghenion ieithyddol yn gynnar ac addasu strategaethau recriwtio, hyfforddi a chyfathrebu yn unol â hynny
- cofnodi gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn y broses o gasglu data ar sgiliau Cymraeg y gweithlu, gan gyflawni cyfraddau cydymffurfio uwch ar draws llawer o sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- cyhoeddi canllawiau cynllunio'r gweithlu pwrpasol yn y Gymraeg (wedi'u datblygu gan AaGIC a GCC), ochr yn ochr â phecynnau cymorth a strategaethau gweithlu eraill, gyda thystiolaeth gynnar o'u defnydd mewn prosesau cynllunio gweithlu blynyddol gan fyrdau iechyd, awdurdodau lleol a chyflogwyr eraill.

Mae'r **blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â pholisïau a chynlluniau ar gyfer y Gymraeg** yn cynnwys:

- defnyddio canfyddiadau'r ymarfer mapio data a gomisiynwyd i nodi dangosyddion sy'n briodol i'r sector a datblygu dangosfwrdd perfformiad cenedlaethol i fonitro'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg
- ehangu'r ymchwil ansoddol mewn gofal sylfaenol yn dilyn cwblhau cam cyntaf arolwg o ddarparwyr gofal sylfaenol i ddyfnhau'r ddealltwriaeth o ddarpariaeth Gymraeg ar draws gwasanaethau meddygol, deintyddol ac optometreg cyffredinol, a fferylliaeth gymunedol

- gwella cysondeb prosesau casglu data am y gweithlu drwy fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau data cyson a chymaradwy ar draws byrddau iechyd, awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol
- parhau i integreiddio ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg mewn offer cynllunio strategol a thempledi gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod anghenion ieithyddol yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses o ddylunio gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu.

Y cyflawniadau allweddol mewn perthynas â chefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu (Thema 2) oedd:

- byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn cyhoeddi cynlluniau pum mlynedd i fodloni gofynion Safon 110 Safonau'r Gymraeg, gan alluogi ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg
- ymwreiddio dulliau i nodi bylchau mewn sgiliau a mynd i'r afael â nhw mewn strategaethau corfforaethol, a blaenoriaethu gwasanaethau yn unol â hynny
- sefydlu systemau manwl yn y rhan fwyaf o sefydliadau i ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol ym mhob hysbyseb swydd
- datblygu Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y maes iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan gynnwys parhau i weithredu'r elfen Codi Hyder, a chyflwyno'r cyrsiau Cymraeg cwrtseisi 'Croeso' a 'Croeso i Bawb'
- cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar draws sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gyda thros 80% o staff yn cwblhau'r hyfforddiant lle roedd data ar gael
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector gofal drwy ymgyrch Gofalwn Cymru GCC, ochr yn ochr ag ymdrechion codi ymwybyddiaeth rhanbarthol a lleol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol
- cyflwyno proses fonitro flynyddol gadarn i adrodd yn gywir ar nifer y myfyrwyr dwyieithog sydd wedi'u hyfforddi fel gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, a gwneud gwelliannau blynyddol parhaus i'r broses hon
- casglu data ar y ddarpariaeth ddwyieithog bresennol gan AaGIC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a ddangosodd fod 63 o gyrsiau israddedig yn 2024-25 wedi cynnig cyfle i fyfyrwyr astudio o leiaf draean o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg
- sicrhau bod gan bob cwrs gofal cymdeithasol gynlluniau gweithredu ar y Gymraeg ar waith drwy GCC
- ymestyn y Cynllun Doctoriaid Yfory (a ariennir gan AaGIC) i ragor o yrfaeodd iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys deintyddiaeth, o dan y cynlluniau 'Doctoriaid Yfory', 'Deintyddion Yfory' a 'Gweithwyr Iechyd Yfory'

- datblygu porth Tregyrfa (gan AaGIC, sydd wedi'i letya gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol) fel y brif ffynhonnell o wybodaeth ac adnoddau ar gyfleoedd swyddi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- cynnal gweithgareddau ymgysylltu â gweithlu'r dyfodol, gan gynnwys byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb mewn ysgolion a darparwyr addysg.

Mae'r **blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i gefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu** yn cynnwys:

- parhau i weithio ar y cyd drwy'r Fforwm Iechyd a sefydlwyd ym mis Mehefin 2025 i gefnogi cyflawni Safon 110 a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws lleoliadau clinigol
- cryfhau'r broses o ddiffinio lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol mewn hysbysebion swyddi mewn lleiafrif bach o sefydliadau lle mae hyn yn dal i gael ei ddatblygu
- ymwreiddio cyrsiau Cymraeg cwrteisi mewn ffordd fwy cyson, mynd i'r afael â'r nifer anghyson o bobl sy'n manteisio arnynt ac annog staff ar draws pob sefydliad i gymryd rhan ynddynt
- gwella'r ddealltwriaeth o gynlluniau darparwyr hyfforddiant iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sgiliau Cymraeg ymhlith eu myfyrwyr
- mynd i'r afael â'r bylchau mewn hyfforddiant dwyieithog a nodwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gan gynnwys meysydd fel optometreg, deintyddiaeth a therapi galwedigaethol
- ehangu gwaith allgymorth gyda gweithlu'r dyfodol mewn sefydliadau sydd heb flaenoriaethu'r gweithgaredd hwn eto.

Mae'r **cyflawniadau allweddol o ran rhannu arferion gorau** (Thema 3) yn cynnwys:

- lansio newyddlen chwarterol Mwy na geiriau i rannu arferion da
- sefydlu a hwyluso cyfarfodydd parhaus y grŵp strategol ar gyfer swyddogion y Gymraeg o'r sector iechyd i hwyluso rhannu gwybodaeth
- cynnull fforymau rhanbarthol mewn rhai ardaloedd i gefnogi cydweithio a datblygu adnoddau a rennir
- sefydlu ac ehangu llwyfannau digidol a rhwydweithiau mewnol o fewn sefydliadau i hwyluso rhannu adnoddau, profiadau staff, a chanllawiau ar arferion da
- datblygu a lansio Hwb Iaith, porth GIG Cymru i rannu adnoddau ac arferion da, a chynyddu'r defnydd ohono

- ehangu gwefannau a chyfarpar digidol dwyieithog, gan gynnwys datblygu Ap dwyieithog GIG Cymru ymhellach
- defnyddio adnoddau a deunyddiau arddangos gweledol iaith Gwaith yn barhaus ac yn helaeth
- comisiynu a chwblhau ymchwil, fel arolwg darparwyr gofal sylfaenol ac ymchwil i ddilysu offer asesu sgiliau gwybyddol yn y Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg â dementia
- cynnal ymarfer cwmpasu i ymchwilio i'r gallu i gofnodi iaith ar draws gwahanol systemau iechyd digidol
- treialu system cof cyfieithu gyffredin ar draws pum sefydliad iechyd cenedlaethol.

Mae'r **blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol i wella rhannu arferion gorau** yn cynnwys:

- cryfhau ymgysylltiad rhwng swyddogion y Gymraeg ac arweinwyr gweithredol. Bydd creu cyfleoedd i swyddogion gydweithio ag arweinwyr gweithredol yn helpu i ymgorffori blaenoriaethau'r Gymraeg ar lefel strategol
- sefydlu a pharhau i gynnal fforymau rhanbarthol ledled Cymru gyfan. Mae angen cefnogaeth i sefydlu a chynnal fforymau rhanbarthol mewn ardaloedd lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd
- gweithio'n agos gyda Llais, yr arolygiaethau a phartneriaid allweddol i barhau i rannu arferion da o bob math o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- cynyddu ymwybyddiaeth o'r Pecyn Cymorth Technoleg Dwyieithog ymhlith timau caffael a thechnoleg ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- cryfhau'r broses o gofnodi iaith unigolion ar draws pob system iechyd ddigidol, a datblygu safonau data i gefnogi cofnodi, olrhain a rhannu gwybodaeth
- darparu adnoddau i gefnogi ymestyn y prosiect system cof cyfieithu gyffredin i fwy o sefydliadau iechyd
- ymchwilio i ddatblygu adnoddau terminoleg Cymraeg.

Mae'r **cyflawniadau allweddol o ran monitro cynnydd** (Thema 4) yn cynnwys:

- sefydlu Bwrdd Cyngori Mwy na geiriau yn ystod 2023-24. Fe wnaeth y bwrdd hwn ymgymryd â gwaith craffu parhaus yn ystod 2024-25
- gwella'r broses ar gyfer gofyn am adroddiadau blynyddol gan sefydliadau, gan gynnwys ceisiadau cynharach a thempledi adrodd gwell yn ystod 2024-25
- adolygu'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro cynllun gweithredu Mwy na geiriau, ochr yn ochr ag adolygiad wedi'i gomisiynu o'r dirwedd data i nodi bylchau.

Mae'r **blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol o ran gwella'r gwaith monitro cynnydd** yn cynnwys:

- datblygu dangosfwrdd perfformiad i fesur canlyniadau a dangos cynnydd yn erbyn cynllun gweithredu Mwy na geiriau – gan gynnwys ffocws penodol ar ganlyniadau
- cryfhau'r ffocws ar y Gymraeg fel rhan o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) a chyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig (IQPD) rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG.